Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-12-11 : 21 Tachwedd 2011**

**Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol**

**CLA55 - Rheoliadau'r Hawl i Reoli (Manylion a Ffurflenni Rhagnodedig) (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'u gwnaed ar:** 5 Tachwedd 2011
**Fe'u gosodwyd ar**: 8 Tachwedd 2011
**Yn dod i rym ar**: 30 Tachwedd 2011

**CLA56 - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'u gwnaed ar:** 6 Tachwedd 2011
**Fe'u gosodwyd ar:** 9 Tachwedd 2011
**Yn dod i rym ar:** 1 Ionawr 2012

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol**

**Dim**

**Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi gyda'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol**

**Dim**

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol**

**CLA52 - Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn**: Cadarnhaol
**Fe'u gwnaed**: 2011
**Fe'u gosodwyd ar**: Heb ei nodi

**Yn dod i rym ar**: 6 Mehefin 2012

**CLA53 – Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Diwygio) 2011**
**Gweithdrefn**: Cadarnhaol
**Fe'i gwnaed ar**: Heb ei nodi
**Fe'i gosodwyd ar**: Heb ei nodi
**Yn dod i rym ar**: 1 Ebrill 2012

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiadau o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3 ar yr offerynnau statudol hyn, sydd i'w cael yn Atodiadau 1 a 2.

**Busnes arall**

**Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU**

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Undeb Amaethwyr Cymru, a gynrychiolwyd gan Mr Andrew Gurney, Swyddog Polisi (Defnydd Tir), a Mr Gavin Williams, Cadeirydd Pwyllgor Defnydd Tir a Materion Seneddol yr Undeb, a chan y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, a Dr Hugh Rawlings, Cyfarwyddwr Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru.

**Penderfyniad i gwrdd yn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gafwyd hyd yma ar yr Ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**21 Tachwedd 2011**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-11-11)**

**CLA52**

**Adroddiad drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011**

**Gweithdrefn:** Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cydgysylltu gofal a chynllunio gofal a thriniaeth i gleifion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn drafft hwn.

**Rhinweddau: craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.3(ii) (ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad) bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o reoliadau sy'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddwyd iddynt gan ddarpariaethau ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ("y Mesur") a'u bwriadwyd i ddatblygu a gwella gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

O dan Ran 2 o'r Mesur, bydd cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yng Nghymru yn cael cydgysylltydd gofal penodol. Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer y meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir penodi person yn gydgysylltydd gofal. Mae'r Mesur hefyd yn darparu y bydd darparwyr gwasanaethau (Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol) yn gweithredu mewn modd cydgysylltiedig i wella effeithiolrwydd y gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir i'r claf.

Mae'r Mesur yn sicrhau y bydd pob claf unigol yn cael cynllun gofal a thriniaeth wedi'u teilwra a ddatblygir gan y cydgysylltydd gofal mewn partneriaeth â'r claf a bydd y cydgysylltydd gofal yn goruchwylio'r

cynllun gyda golwg ar gyflawni'r canlyniadau y mae'r gwasanaethau i'r claf wedi'u cynllunio ar gyfer eu cyflawni.

Mae'r darpariaethau hyn yn unigryw i Gymru.

O dan y weithdrefn gadarnhaol y mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud ac felly cânt eu trafod gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**21 Tachwedd 2011**

**Atodiad 2**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-12-11)**

**CLA53**

## Adroddiad drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

### Teitl: Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Diwygio) 2011

**Gweithdrefn:** Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 2 i Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 ('y Mesur') drwy amnewid y tablau ynghylch yr elfennau ym mharagraffau 5 a 6. Gwneir hyn i gynyddu uchafswm yr ardollau y caniateir eu gosod ar gyfer yr elfennau cynhyrchu a chigydda/ allforio o'r ardoll cig coch.

**Materion technegol: craffu**

Gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 21.2.

1. Gwneir y Gorchymyn hwn drwy ddefnyddio pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan adran 5(4) o'r Mesur, na wnaed gorchymyn cychwyn eto ar ei gyfer. Er y disgwylir y bydd gorchymyn o'r fath yn cael ei wneud cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, nid yw'r pŵer ar gael wrth i'r adroddiad hwn gael ei baratoi. [Rheol Sefydlog 21.2(i) - bod amheuaeth a yw intra vires]

**Rhinweddau: craffu**

Ni wahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 21.3.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**21 Tachwedd 2011**